# Datganiad Anheddle
## Beulah
### Inset Rhif 9

### Disgrifiad
Saif Beulah yn y wlad agored ar y B4333 (y ffordd o Aberporth i Gastellnewydd Emlyn) tua 4.8 km (3 milltir) i'r de i gefnffordd yr A487(C) o Aberaeron i Aberteifi. Mae'r pentref wedi datblygu ar ffurf stribedog ar hyd y B4333 i gyfeiriad y de a'r gogledd, ac i raddau llai ar hyd yr isffyrdd i gyfeiriad y gorllewin. Mae yno ragor na 70 o anheddau.

Tai modern sydd yno'n bennaf ac mae yno gyfleusterau siopa, swyddfa bost a gorsaf betrol ynghyd ag ysgol gynradd a chyfleusterau cymunedol. Mae'n cyflawni anghenion siopa'r pentrefi a'r pentrefannau yn y cyffiniau ynghyd â'i breswylwyr ei hunan. Mae'r iaith Gymraeg yn iaith feunyddiol ac mae'n rhan bwysig o wead cymdeithasol y gymuned. Mae Beulah mewn lle da o ran cael mynediad i ffordd yr arfordir ac i Gastellnewydd Emlyn, ac mae cysylltiadau â'r rhain trwy'r llwybrau bysys naill ai'n feunyddiol neu ar ddiwrnodau penodol o'r wythnos.

### Ymateb i'r Ymgynghori
Nododd rhai ymatebwyr fod gan Feulah yr holl amwynderau a'i fod mewn lle da'n ddaearyddol i ddarparu tai o safon yn eu holl amrywiaeth, a bod posibilrwydd y bydd y galw, sydd eisoes yn iach, yn cynyddu, oherwydd y Parc Busnes yn Aber-porth. Gofynnodd eraill am Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned i helpu i warchod gwead y gymuned, yn enwedig yr iaith Gymraeg, y tybid ei bod eisoes wedi dioddef tros y blynyddoedd diwethaf.

### Gweledigaeth ar gyfer y Gymuned
Mae Beulah yn bentref poblogaidd sydd â rhan bwysig i'w chwarae yn yr ardal wledig o'i amgylch, gan fod ganddo'r cyfleusterau a'i fod yn ddigon rhwydd ei gyrraedd sy'n ei wneud yn ddewis poblogaidd yn lleol fel lle i fyw. Hefyd mae gobaith a disgwyliadau yn ystod oes y CDU y bydd y cyfleoedd cyflogaeth yn Aber-porth yn annog pobl ifanc i aros yn yr ardal. Twf yn y pentref ar y sail yma fyddai'r ffordd orau o sicrhau lles a pharhad yr iaith Gymraeg yn y gymuned.

Mae'n bwysig rhoi cyfrif am barhad llwyddiant a bywiogrwydd y gymuned a'r iaith Gymraeg a bwriedir ceisio sicrhau datblygu graddol yn unol â gallu'r gymuned i dderbyn twf naturiol. Yn gyffredinol, nid yw'n fwriad i'r holl dir sydd ar gael yn y pentref gael ei ddatblygu yn ystod oes y CDU, ond yn hytrach i gyflawni'r galw drwy gydol y cyfnod. Mae tir hamdden ger yr ysgol yn cael ei warchod rhag ei ddatblygu.

### Cyfyngiadau ar Ddatblygu
**Isadeiledd**
Mae'r Gwaith Trin Dŵr Gwastraff bron yn llawn dop. Mae gwelliannau yn yr arfaeth yn y Rhaglen Fuddsoddi bresennol (2000-2005). Efallai y bydd angen cynyddu gallu'r Gwaith Trin Carthion. Dylai Beulah gael blaenoriaeth gymharol ar gyfer buddsoddi o'r fath.
Caiff y datblygiad ei wneud fesul tipyn fel na fydd y dŵr yn y cwrs dŵr yn colli ei safon.

# Settlement Statement
## Beulah
### Inset Number 9

### Description
Beulah lies in open countryside on the B4333 (Aberporth to Newcastle Emlyn road) approximately 4.8 km (3 miles) south of the main A487 (T) Aberaeron to Cardigan trunk road. The settlement has developed in a ribbon format along the road frontage of the B4333 in northerly and southerly directions, and to a lesser extent along the minor road to the west. It comprises over 70 dwellings.

The settlement comprises mostly modern properties and has shopping, post office and petrol station facilities as well as a primary school and community facilities. It serves the local shopping needs of adjacent rural settlements and hamlets as well as those of its own residents. The Welsh language is in everyday use and is an important component of the social fabric of the community. Beulah is well located for access to the coast road as well as to Newcastle Emlyn, links to all of which are served by bus routes serviced daily or certain days of the week.

### Consultation Response
Some respondents pointed out that Beulah has all amenities and is well geographically positioned to provide quality housing for the entire development spectrum, with potential for growth in the already healthy demand, in the light of Business Park at Aberporth. Others made pleas for Community Impact Assessment to help safeguard the fabric of the community, in particular with regard to the Welsh language, which was perceived already to have suffered over recent years.

### Vision for the Community
Beulah is a popular settlement which has an important role to play in the local rural hinterland, since it has the facilities and accessibility which make it a popular local choice for settlement. There is also the hope and prospect within the UDP plan period that employment opportunities at Aberporth will encourage young people to remain rather than leave the area. A growth in the settlement consistent with this aim would be the best way to secure the health and well being of the Welsh language in the community.

It is important to be mindful of the continued success and vitality of the community and of the Welsh language and it is intended to seek a measured rate of development consistent with the capacity of the community to absorb growth naturally. Overall, it is not intended that all land potentially available within the development boundary should be developed within the lifetime of the UDP, but to offer an element of choice to accommodate demand throughout the entire period. Recreation land adjacent to the school is safeguarded from development.

### Constraints on Development
**Infrastructure**
The Waste Water Treatment Works is nearing capacity. Improvements are planned within the current Investment Programme (2000-2005). Sewage Treatment Works treatment level may require upgrading. Beulah should be given relative priority for such investment.
Development is to be phased so as to ensure there is no loss of water quality in the watercourse.